Gair gan Y Maer

Profedigaethau

Bu'r Maer gydymdeilo gyda'r Cynghorydd Dewi Jones a'i deulu yn eu profedigaeth diweddar.

Robin Hughes

Trist oedd clywed am farwolaeth
Mr Robin Hughes wedi cystudd blin.

Mae Cyngor Tref Pwllheli a'r gymuned yn gyffredinol wedi colli gwas ffyddlon.
Roedd yn Glerc y Cyngor Tref ers ei benodi yn 2002.

Roedd gwybodaeth a phrofiad helaeth Robin o lywodraeth leol yn amhrisiadwy a bob amser yn ffynhonnell ddibynadwy i bawb oedd ei angen, gan gynnwys aelodau'r cyhoedd, cynghorwyr a chlercod cymuned a thref eraill ar draws gogledd Cymru a thu hwnt.

Roedd Robin hefyd bob amser yn barod i wirfoddoli mewn amrywiol ddigwyddiadau, gan gynnwys Hwyl yr Ŵyl, Gorymdaith Dydd Gŵyl Dewi, Sul y Cofio a Seremonïau Dinesig yn y dref.

Roedd ei drylwyredd i fanylion hefyd yn amlwg wrth ddiogelu cyllid y Cyngor Tref.

Roedd ei ddull cwrtais a phroffesiynol wrth ddelio â phobl a busnes y cyngor yn esiampl dda i eraill. Braint oedd cael ei adnabod.

Dywedodd y Maer fod ei gydymdeilmlad dwysaf at ei wraig Martha a'i deulu yn eu profedigaeth. Dywedodd bod gwaith caled Robin dros y blynyddoedd yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan bawb.

Roedd y dorf yn ei angladd yn brawf o'r parch a'r edmygedd iddo.
Diolchodd y Maer i'r cynghorwyr am eu presenoldeb yn yr angladd.
Dywedodd y Maer ei fod wedi cyfrannu £300 er cof am Robin i Glwb Seren Wen o gronfa'r Maer. Mae'r Clwb yn rhoddi cefnogaeth i ddioddefwyr a theuluoedd sy'n ymladd cancr.

Sul y Cofio

Cafwyd gwasanaeth yn Eglwys Sant Pedr dan arweiniad Y Parch. Peter Kaye. Roedd yna gynulleidfa deilwng iawn yno.

Diolchodd y Maer i Eric Price y Clerc dros dro a'r Cynghorydd Henry Rees am gymryd rhan yn y gwasanaeth ger y gofadail. Dywedodd y Mae rei fod ynn falch bod y Cyngor Tref a Myfanwy Hughes ar ran y Lleng Prydeinig yn parhau i gydweithio i sicrhau ein bod yn coffau rhai a rhoddasant eu heddiw am ein yfory.
Byddai pwrcasu system PA symudol yn ddymunol ac yn ddefnyddiol i'r dyfodol wrth y gofadail ac mewn cyfarfodydd cyhoeddus eraill.

Boreau Coffi

Mynychodd y Maer boreau coffi Cymdeithas y Bad Achub Cangen Pwllheli ym Mhlas Heli ac i fore coffi Chwiorydd Capel Penlan.
Mudiadau pwysig yn y dref ac yn barod bob amser i wasanaethu a helpu eraill.

Baneri Stryd

Diolchodd y Maer i'r Clerc dros dro Eric Price, y Cynghorydd Henry Rees a'r Cynghorydd Alan Williams am dynnu'r baneri'r Ddraig Goch a gosod y Baneri Nadolig o amgylch y dref.

Cyfarchion Nadolig

Dymunodd y Maer Nadolig Llawen a phob bendith i bawb dros yr ŵyl a dymuniadau gorau yn 2019. Diolch i bawb am eu cefnogaeth trwy'r flwyddyn ac i'r holl wirfoddolwyr ac eraill sy'n ymdrechu a gweithio'n galed dros eraill yn ein tref annwyl Pwllheli.

Eric Wyn Roberts
6ed o Ragfyr, 2018.